

Am Eiliad

Nid yw hi ond fel ddoe pan oeddwn yn paratoi y Bont ar gyfer y mis diwethaf gan edrych ymlaen at y daith i Fryniau Casia. Erbyn hyn dyma fi wedi dychwelyd adref ac yn edrych yn ôl ar fythefnos fythgofiadwy yng nghwmni ffrindiau yng Ngogledd-Ddwyrain yr India. Bu'r ymweliad yn brofiad dyrchafol a rhaid cyfaddef fy mod yn hiraethu nid yn unig am fy ffrindiau yno ond yn arbennig am y gymdeithas a fu'n gynhaliaeth inni trwy gydol cyfnod ein hymweliad.

Cawsom fwynhau cwmni'r gwragedd a ymwelodd â Chymru yn 2011 ac roedden nhw'n awyddus iawn i mi anfon eu cofion cynhesaf at bawb ohonoch. Buom ar eu haelwydydd yn mwynhau cwmni eu teuluoedd.

Sut a phle mae dechrau crynhoi profiadau mor aruchel mewn colofn fach fel hon? Wn i ddim ond mi wna fy ngorau. Yn sicr rhaid bodloni ar gyfeirio at ambell ddigwyddiad yn unig. Ymwelsom â dwy ysbyty a thri chartref plant amddifad. Buom mewn degau o eglwysi, mewn ysgol ac mewn Coleg Diwinyddol gan fwynhau croeso twymgalon ynddynt fel ag a wnaethom ar ddegau o aelwydydd.

Prif ddiben y daith oedd derbyn gwahoddiad pwyllgor chwiorydd Synod Casi-Jaiantia i bregethu yn eu Sasiwn blynyddol oedd yn cael ei chynnal eleni ym mhentref diarffordd Mynso. Gredwch chi i ni fod mewn ciw traffig am dros ddwy awr yn teithio yno o Umulong, ble roeddem yn aros, pellter o rhyw bymtheg milltir. Roedd **pawb** yn mynd i Mynso! O ganlyniad roeddem yn hwyr yn cyrraedd a gweithgareddau'r dydd wedi hen gychwyn. A golygfa ryfeddol oedd cyrraedd yno ac edrych i lawr y dyffryn a gweld miloedd o bobl wedi ymgynnull ac yn eistedd ar y llethrau ac o dan y coed yn gwrando ar y pregethu ac yn ymuno yn y canu. Cawsom wefr wrth wrando ar hanner dwsin o gorau ifanc yn canu a'u cerddoriaeth yn atseinio dros y bryniau. Profiad eneiniedig! Cyfanswm y casgliad ar y dydd? Sgin i ddim syniad, ond binia ac nid platia oedd ganddyn nhw. Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd yn y capel ar y Sadwrn blaenorol, ac roedd cyfanswm y

casgliad y prynhawn hwnnw tua £20,000! Pobol yn 'rhoi' ac nid yn 'hawlio' ydi'r Casiaid!

Bu ymweld â'r cartrefi plant amddifad yn brofiad dirdynnol, a nifer o'r plant yn byw dan amgylchiadau digon truenus. Mae'n anodd anodd iawn anghofio ambell i olygfa. Bu'n fraint ymweld â'r ddwy ysbyty, y naill yn Jowai a'r llall yn Shillong, ac edmygu gweledigaeth a dyfalbarhad y gweithwyr ar hyd y blynyddoedd wrth iddynt wireddu eu breuddwyd o godi a chynnal ysbytai sydd yn gwasanaethu pobl dlawd eu cymunedau yn ymarferol ac yn ysbrydol. Bu gwrando ar Dr David Tariang, cyfarwyddwr Ysbyty Dr Gordon Roberts yn Shillong yn amlinellu ei gynlluniau ar gyfer ymestyn yr ysbyty yn agoriad llygad. Maent yn mynd ymlaen mewn ffydd gan gredu y bydd yr estyniad ar ei draed erbyn blwyddyn dathlu canmlwyddiant yr ysbyty yn 2022.

Mae'n amhosib byw ymhlith pobol mor hardd eu buchedd heb gael eich cyffwrdd gan eu diffuantrwydd a'u hawddgarwch. Bydd eu hysbrydolrwydd cynhenid yn aros yn y cof am amser maith. Nid dim ond yn yr eglwysi y profwyd hyn ond ar eu haelwydydd yn fwyaf arbennig. Mae gweddi a gweddio yn ffordd o fyw iddynt ac eithriad yw gweld neb yn eistedd wrth y bwrdd bwyd heb yngan gair o weddi. Golygfa gyffredin oedd gweld mam ifanc yn gosod ei phlentyn bach wrth y bwrdd bwyd ac yn ei ddysgu i ddweud ei bader cyn bwyta. Mor wahanol i'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru ar hyn o bryd a'r arfer o weddio wedi mynd yn rhywbeth dieithr iawn. Mae gan y fam eglwys yng Nghymru lawer iawn i'w ddysgu bellach oddi wrth ei merch ym Mryniau Casia.

Eu cais o hyd ac o hyd oedd ar inni weddio drostynt fel eglwysi a sefydliadau. Gweddio dros unigolion a theuluoedd. Gweddio dros yr ysbytai a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol. Gweddio dros y cartrefi plant a'r ysgolion. Gweddio dros eu gwaith cenhadol sy'n ymestyn allan i bob cwr o'r wlad. Dyna hefyd fu ein cais ninnau iddynt hwythau. Gofyn iddynt weddio'n daer dros y sefyllfa bresennol

yng Nghymru yn y gobaith y gwelwn unwaith eto 'wanwyn siriol iawn.'

Gwenda Richards

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â **Mrs Grace Owen**, Fferm Is-Helen yn ei phrofedigaeth o golli ei mam yn ddiweddar. Roedd gan 'nain' feddwl y byd o Ela, Megan a Huw a chydymdeimlwm â'r teulu oll yn eu colled gan ddymuno Duw yn ffrind iddynt yn eu galar a'u hiraeth. Yr un yw ein dymuniad i **Mrs Glenys Humphreys Jones**, Rhos, Llys Meirion, wedi iddi hithau golli ei brawd.

Gwaeledd

Da yw deall fod amryw o'n cydaelodau a fu'n wael yn ddiweddar bellach wedi gadael yr ysbyty ac yn gwella ar eu haelwydydd. Mae **Mrs Beryl Jones**, Tegfan, 41 Rhes Assheton, ar ei ffordd adref ac wedi symud o Ysbyty Gwynedd i Ysbyty Eryri. Derbyniodd **Mrs Eurfron Jones**, Llechwedd, Lôn Ysgubor Wen, driniaeth yn Ysbyty Gwynedd, a **Mrs Helen Jones**, Bod Hyfryd, Ffordd y Gogledd, driniaeth yn Ysbyty Caer, ond y mae'r ddwy erbyn hyn adref ac yn gwella'n foddhaol. Nid yw **Mr Ken Francis**, 16 Bryn Rhos wedi bod yn dda yn ddiweddar ac anfonwn ein cofion cywiraf ato ef a phawb o'r cleifion gan ddymuno gwellhâd buan a llwyr idynt oll.

Penblwydd Arbennig

Llongyfarchwn **Mrs Bessie Gwilym Hughes** ar ddathlu ei phenblwydd yn 104 yn ddiweddar. Mwynhaodd barti bach yng nghwmni ei theulu yng nghartref Gwynfa. Anfonwn ein dymuniadau da ati

Casgliad Cenhadol y Chwiorydd

Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at gasgliad arbennig y chwiorydd mewn dwy oedfa yn ddiweddar. Dyma'r casgliad cenhadol blynyddol fydd yn mynd tuag at waith cenhadol ein henwad. Ers rhai blynyddoedd bellach mae pwyslais ein cenhadaeth wedi symud o wledydd tramor ac yn canolbwyntio ar genhadaeth gartref. Caiff yr arian ei ddosbarthu rhwng y gweithwyr cenhadol sydd gan ein henwad led-led Cymru. Bydd Carys Humphreys, ein hunig genhades dramor,

hefyd yn derbyn cyfran fach o'r arian tuag at brosiect cenhadol yn Taiwan. Os ydych yn awyddus i gyfrannu, yna cysylltwch â **Mrs Glenys Trainor** (672837).

Rhaghysbys: Noson Goffi yn Seilo, Nos Wener, 20 Mehefin

Cynhelir Noson Goffi flynyddol y chwiorydd yn Theatr Seilo, nos Wener 20 Mehefin. Gan i'r tywydd fod yn anffafriol y llynedd pan gynhaliwyd y Noson Goffi yn 'Culfor' cartref Dr Huw a Beryl Roberts, penderfynwyd newid y drefn eleni a gweld sut ymateb a geir i'w chynnal dan do yn Seilo. Cadwch y dyddiad yn rhydd.

Casgliad Cymorth Cristnogol

Daeth yn bryd unwaith eto i drefnu casgliad blynyddol Cymorth Cristnogol. Cawn y fraint rhwng 11a 17 o fis Mai o fynd o ddrws i ddrws un ai gydag amlenni neu flwch casglu. Mae tîm da o gasglwyr yn Seilo, ac edrychwn ymlaen at gydweithio gyda'r bwriad o gynorthwyo ein brodyr a'n chwiorydd anghenus ar draws y byd . Os ydych yn awyddus i ymuno â'r tîm, yna cysylltwch â'r Gweinidog (676435)

Dosbarth Derbyn

Dymuna'r gweinidog dderbyn enwau ieuentid yr eglwys sy'n dymuno cael eu derbyn yn gyflawn aelodau o eglwys yr Arglwydd Iesu Grist. Gan fod y tymor hwn yn dymor arholiadau a'r pwysau'n drwm ar bobol ifanc, mae'n debyg mai'r Hydref fyddai'r amser gorau i gynnal y dosbarthiadau. Carai'r gweinidog, er hynny, gael rhyw syniad o'r nifer fydd yn debygol o fod yn awyddus i ymuno â'r dosbarth.

Pwdin a Phaned

Tarten afal, pwdin yr haf, treiffl, pavlova, teisen gaws, salad ffrwythau, Black Forest Gateaux - ydw i wedi llwyddo i dynnu dwr o'ch dannedd bellach?? Yr achlysur, yn y theatr nos Fawrth, Ebrill 1af., oedd Noson Pwdin a Phaned, sy'n ddigwyddiad blynyddol a hynod o boblogaidd yng nghalendr digwyddiadau Pwyllgor Gwaith y Chwiorydd. Yn dilyn yr arlwy hyfryd a phaned, cafwyd

gwledd arbennig arall o eitemau amrywiol, andros o safonol, gan blant yr Ysgol Sul. Roedd y gynulleidfa niferus wrth eu bodd yn gwrandao ar y plantos talentog yn perfformio mor raenus a naturiol, a phawb yn cytuno i ni gael noson gwerth chweil! Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson. Gwnaed elw sylweddol o dros £470, a bydd cyfran ohono yn mynd at waith yr Ysgol Sul yn Seilo. Llwyddodd Mrs Ann Llywelyn Williams i godi £100, yn ychwanegol at y swm uchod, ar y noson, a'i bwriad yw ychwanegu ato yn ystod y flwyddyn er mwyn prynu llyfrau ayb i'r Cartrefi Plant yn yr India y bu'r gweinidog yn eu dangos i ni ar Sul y Fam.

Edwina Morgan

Cymdeithas y Chwiorydd

Braf oedd gweld fod cymaint wedi troi allan ar nos Lun Mawrth 10^{fed} ar gyfer cyfarfod ola'r tymor ag eithrio'r cinio blynyddol. Lucille Hughes oedd llywydd y noson ac wrth groesawu'r wraig wadd, sef Menna Jones o antur Waunfawr addawodd y byddem yn cael noson gyffrous ac ni chawsom ein siomi. Bu Menna yn gweithio yn yr Antur ers pedair blynedd ar bymtheg ac yn ystod y noson soniodd am ei gwaith a'r holl weithgaredd sydd ynghlwm â'r fenter. Clywsom hanes sefydlu'r Antur yn dilyn gwaith Mr Gwyn Davies a'r modd y sicrhawyd arian gan y Swyddfa Gymreig. O'r cychwyn bu rôl trigolion y pentref yn allweddol wrth iddynt groesawu ac anwesu'r fenter. Roedd brwdfrydedd Menna yn heintus a nododd mai'r gamp o hyd oedd sicrhau digon o her a chael agwedd gadarnhaol. Bellach mae trosiant yr Antur yn £2 filiwn a rhoddir pwyslais ar yr elfen fasnachol a rheidrwydd i ddod ag arian i mewn. Er mai y prif waith oedd trin gerddi ar y dechrau, erbyn hyn mae nifer o brosiectau ynghlwm â'r Antur a sicrheir bod pobl anabl yn ganolog i bob un. Cyflogir 160 o weithwyr mewn prosiectau megis y Warws Werdd, cynllun y sach goch

sy'n gwaredu dogfennau cyfrinachol yn ddiogel, Caergylchu a'r caffï, ynghyd â'r 7 acer o barc natur yn y Waunfawr. Y bwriad yw bod yn hunangynhaliol a thyfu bwyd ar gyfer y caffï. Eleni mae'r Antur yn dathlu 30 mlynedd o lwyddiant. Prawf o hynny yw ei fod wedi cyrraedd rhestr fer Gwobrau Gŵyl Ddewi. Diolchodd Lucille i Menna am y sgwrs arbennig a dymunwyd pob llwyddiant i'r dyfodol.

Marian Parry Jones

Y Gymdeithas Lenyddol

Nos Lun Mawrth 3^{ydd} aeth dros hanner cant o aelodau am eu cinio Gŵyl Ddewi i'r Clwb Golff. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd, Richard Morris Jones ac offrymwyd y gras bwyd gan y Parchg Gwenda Richards. Cafwyd gwledd wedi ei darparu gan Enid a'r staff. Wedi'r swpera cyflwynodd y Cadeirydd ein gwraig wadd sef y gantores a'r delynores amryddawn Gwenan Gibbard. Cafwyd peth o hanes ei chefnidir ganddo cyn i Gwenan ei hun gyflwyno ei cherddoriaeth – casgliad o ganeuon gwerin, caneuon traddodiadol a cherdd dant. Un gŵr a gafodd ddylanwad mawr ar ei dewis oedd J Glyn Davies a'i gerddi am y môr; hynny'n naturiol gan i Gwenan gael ei geni a'i magu ar lan y môr ym Mhwlheli. Gwraig a ddylanwadodd yn fawr arni oedd y delynores Nansi Richards a rhoddodd berfformiadau diddorol o'i cherddoriaeth ar y delyn fechan oedd ganddi. Mwynhaodd pawb y noson yn fawr a diolchwyd iddi gan y Cadeirydd.

Ar Fai 12 bydd Taith Lenyddol y Gymdeithas yn dilyn 'Llwybrau'r enwogion' yng nghwmi Penri Jones, Llanbedrog.

Gwenno Parry

Gweinidog: Parchg Gwenda Richards 676435

Golygydd: Mrs Angharad Rhys Williams 674865